Y wiwer hunanol

Hunanoldeb / Gwneud Ffrindiau / Ymddiriedaeth

Wiwer fach annifyr oedd Cynffon Goch. Er bod ganddi gynffon goch flewog, hardd doedd neb yn ei hoffi.
Pan ddaeth yr hydref dechreuodd Gynffon Goch gasglu mes ar gyfer tywydd oer y gaeaf. Byddai'n dringo i fyny'r coed ac yna yn rhedeg o un pen i'r goedwig i'r llall. Yn ei phalfau byddai'n cario'r mes. Yna byddai'n tyrchu gyflym a chuddio'r mes yn y ddaear. Ar ôl iddi wneud hyn drwy'r dydd byddai'n dringo'r goeden dderw i orffwyso. Y goeden dderw oedd hoff goeden Cynffon Goch.
Pan fyddai anifeiliaid eraill yn ymweld â Cynffon Goch byddai bob amser yn gas ac yn annifyr. Fyddai hi byth yn chwarae efo'r wiwerod eraill. Fyddai hi byth yn barod i'w helpu. Os y byddan nhw'n galw arni, yr un oedd yr ateb bob tro, "Ewch i ffwrdd, dydw i ddim angen ffrindiau!"
Un noson, yn ystod tymor y gaeaf, pan oedd y wiwerod i gyd yn cysgu dros y tywydd oer, cododd storm enbyd. Chwythodd y gwynt yn gryf a phistyllodd y glaw. Chwythai'r gwynt yn erbyn y coed a dechreuodd yr hen goeden dderw, hoff goeden Cynffon Goch, ysgwyd. Yng nghanol y nos torrodd y gangen lle roedd Cynffon Goch yn cysgu. Syrthiodd hithau i dd_r yr afon oedd yn rhedeg o dan y goeden. Roedd llif mawr yn yr afon gan ei bod wedi bwrw glaw am ddyddiau.
"Help, help," galwodd Cynffon Goch dros y lle. Yn ffodus iddi hi clywodd rai o anifeiliaid y goedwig ei llais yn gweiddi. Dyma nhw'n rhuthro at lan yr afon. Dyna lle roedd Cynffon Goch yn troi a throi yn y dŵr mawr. Roedden nhw'n cofio bod Cynffon Goch wedi dweud wrthyn nhw nad oedd hi angen ffrindiau. Ond roedd hi angen ffrindiau yn awr. Felly dyma nhw i gyd yn rhuthro i ddŵr yr afon i geisio helpu Cynffon Goch. Ar ôl cryn drafferth dyma lwyddo i'w llusgo i'r lan yn wlyb o'i chorun i flaen ei chynffon flewog. Roedd hi wedi anafu ei hun hefyd. Roedd craith ar ei thrwyn a'i chlust dde a chreithiau mawr ar

ei phawennau blaen.
Am ddyddiau bu'r anifeiliaid eraill yn helpu Cynffon Goch. Yn wir roedden nhw'n meddwl nad oedd hi am fyw. Ond roedd hi'n gwella'n araf bob dydd. Roedd rhai o'r anifeiliaid yn cario bwyd iddi a'r anifeiliaid eraill yn codi tŷ newydd iddi yn yr hen goeden dderw.
Dechreuodd Cynffon Goch feddwl pa mor dda oedd ei ffrindiau wedi bod.
"Rwy'n gwybod fy mod wedi bod yn hen wiwer fach hunanol, gas ac annifyr. Fe wnes i ddweud nad oeddwn i eisiau ffrindiau. Ond erbyn hyn rydw i wedi newid fy meddwl. Rydw i am wneud parti mawr i chi pan fyddai'n well ac fe gewch chi i gyd ddod i'r parti. Ac fe gaf ddweud DIOLCH YN FAWR wrth bob un ohonoch.

Diolch i ti, O Dduw, am ffrindiau.
Helpa fi i fod yn ffrind i bawb. Amen.

✦ Fyddwch chi weithiau'n gas ac yn annifyr? Pam tybed?
✦ Beth sy'n gwneud ffrind da?